**Buddion Pensiynau Bangor**
**Cwestiynau Cyffredin**

## Rhagarweiniad

Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn yn egluro sut mae Buddion Pensiynau Bangor a Chyfnewid Cyflog yn gweithio ac yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Sylwch fod yr holl symiau a ddangosir yn y llyfryn hwn wedi eu cyfrifo ym mis Ebrill 2016 a gallant newid yn y dyfodol yn unol â deddfwriaeth.

Trefniant Cyfnewid Cyflog yw cynllun Buddion Pensiynau Bangor sy'n newid sut mae cyfraniadau pensiwn gweithwyr yn cael eu gwneud. Mae cynlluniau Cyfnewid Cyflog yn ffordd gost effeithiol o wneud taliadau ac mae trefniadau tebyg hefyd yn bodoli ar gyfer talebau gofal plant ac wrth wneud taliadau i Feithrinfa Tir Na n-Óg, i'r cynllun Beicio i'r Gwaith ac wrth brynu gwyliau ychwanegol.

Bydd y cynllun yn ffurfio rhan o delerau ac amodau eich cyflogaeth ac isod rydym wedi rhoi atebion i rai o'r cwestiynau y gallech fod eisiau eu gofyn ynglŷn â'r trefniant.
Os oes gennych ragor o gwestiynau, ewch i dudalennau gwe'r adran Adnoddau Dynol ar y Fewnrwyd, cysylltwch â'r adran Adnoddau Dynol yn uniongyrchol ar 01248 383865 neu â Swyddog Pensiynau'r Brifysgol ar 01248 383261.

**Cynnwys**


- Cynllun Buddion Pensiynau Bangor
- Cyfraniadau at y Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) wedi mis Hydref 2016
- Cyflog ac amodau
- Fy mhensiwn
- Treth ac Yswiriant Gwladol
- Materion eraill
- Beth i'w wneud nawr

**Cynllun Buddion Pensiynau Bangor**

### 1. Sut mae cynllun Buddion Pensiynau Bangor yn gweithio?

Nid y chi sy'n talu cyfraniadau'r gweithiwr i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). O 1 Ebrill 2016, bydd cyfraniadau'r gweithiwr yn 8% o'r cyflog (6.5% yr arferai hyn fod i aelodau adran Buddion Gyrfa a Ailbrisiwyd a 7.5% i aelodau adran Cyflog Terfynol).

- Bydd y Brifysgol yn cynyddu ei chyfraniadau cyflogwr ac yn talu swm ychwanegol sy'n gyfwerth â'ch cyfraniad pensiwn gweithiwr cyfredol. Bydd y Brifysgol yn talu cyfraniad cyflogwr o 18% (o 1 Ebrill 2016). Yn ychwanegol, byddant yn talu swm o 8% sy'n cyfateb i'ch cyfraniad pensiwn gweithiwr sy'n rhoi cyfanswm cyfraniad o 26% i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion.
- Caiff eich Cyflog Sylfaenol ynghyd ag unrhyw Lwfansau Pensiynadwy eraill eu lleihau yn ôl y swm y byddech wedi ei dalu i mewn i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion pe na baech chi wedi manteisio ar gynllun Buddion Pensiynau Bangor.
- Yn y rhan fwyaf o achosion bydd eich cyflog clir yn cynyddu oherwydd y byddwch yn talu llai o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae hyn oherwydd bod Cyfraniadau Pensiwn Gwladol yn daladwy ar gyfraniadau pensiwn gweithiwr ond nid ar gyfraniadau cyflogwr. Bydd y Brifysgol hefyd yn gwneud arbedion o ran Cyfraniadau Pensiwn Gwladol yn yr un modd.
- Ni fydd lefel gyffredinol y cyfraniadau sy'n mynd i mewn i'r cynllun yn newid.
- Ni fydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn ffurfio rhan o gynllun Buddion Pensiynau Bangor, felly byddwch yn parhau i dalu unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn yr un ffordd. Fodd bynnag gall hyn newid wedi Hydref 2016 (gweler cwestiwn 7).
- Nid oes effaith ar godiadau cyflog, goramser ac ati.
- Byddwn yn dyfynnu eich Cyflog Sylfaenol a'ch Cyflog wedi'i Addasu at bob diben allanol, er enghraifft, wrth ddyfynnu eich cyflog at ddibenion ceisiadau morgais.
- Bydd eich pensiwn a'ch buddion eraill wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol.

### 2. Pam fod y Brifysgol wedi cyflwyno cynllun Buddion Pensiynau Bangor?

Ym mwyafrif yr achosion bydd cynllun Buddion Pensiynau Bangor yn cynyddu eich cyflog clir drwy leihau eich Cyfraniadau Yswiriant Gwladol – sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill.
Mae'r cynnydd yn eich cyflog clir drwy gynllun Buddion Pensiynau Bangor yn dibynnu ar eich Cyflog Sylfaenol. Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o'r arbedion blynyddol oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol sydd ar gael i weithwyr sy'n gwneud cyfraniadau o 8% i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion ar hyn o bryd.

| Cyflog Sylfaenol (£) | Arbediad Blynyddol y Gweithiwr oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol (£)* |
|---|---|
| 15,000 | 144.00 |
| 20,000 | 192.00 |
| 25,000 | 240.00 |
| 30,000 | 288.00 |
| 35,000 | 336.00 |
| 40,000 | 384.00 |
| 45,000 | 232.40 |
| 50,000 | 80.00 |
| 55,000 | 88.00 |
| 60,000 | 96.00 |

*Mae'r arbedion hyn wedi eu seilio ar gyfraddau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer 2016/17

Mae arbedion oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn llai ar gyfer rhai ar gyflogau uwch oherwydd fod y gyfradd pan delir Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn gostwng o 12% i 2% ar gyfer enillion dros y Terfyn Enillion Uchaf ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (£43,000 y flwyddyn ar gyfer 2016/17).

### 3. Ydw i'n gymwys i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor?

Fel Aelod o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion rydych yn gymwys i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor. Ni fydd modd i chi gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor pe bai eich Cyflog wedi'i Addasu'n disgyn yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (sef £6.70 yr awr o fis Hydref 2015) neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol (sy'n berthnasol i'r rheiny sydd dros 25 oed ac sydd wedi ei osod ar £7.20 yr awr o fis Ebrill 2016). Byddwn yn monitro lefelau cyflog ac yn rhoi gwybod i chi os ydych yn debygol o gael eich effeithio. Fodd bynnag, os yw eich amgylchiadau'n newid ac os ydych yn meddwl efallai eich bod yn dod dan y categori hwn, dylech gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 383865 neu â Swyddog Pensiynau'r Brifysgol ar 01248 383261.

### *4. Sut caiff gweithwyr newydd eu trin?*

Caiff pob aelod newydd o staff eu cofrestru'n awtomatig yn rhan o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion os ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymrestru'n awtomatig. Byddant hefyd yn cael eu cynnwys yn awtomatig yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor os ydynt yn cael eu penodi ar gytundeb oriau sefydlog am gyfnod o dri mis neu fwy, oni bai eu bod yn llenwi ffurflen i ddewis eithrio o gynllun Buddion Pensiynau Bangor neu ein bod ni yn gweld y byddai'n anfanteisiol iddynt gymryd rhan.

### *5. Sut y bydd hyn yn effeithio ar fy nghyflog?*

Drwy gynllun Buddion Pensiynau Bangor nid y chi sy'n talu cyfraniadau pensiwn gweithiwr yn syth o'ch cyflog. Yn hytrach, caiff eich Cyflog Sylfaenol ei ostwng yn ôl swm y cyfraniadau pensiwn y byddech wedi eu talu fel arfer i mewn i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion. Gelwir y cyflog diwygiedig hwn yn Gyflog wedi'i Addasu. Yn gyfnewid am y gostyngiad hwn yn eich cyflog, mae'r Brifysgol yn gwneud cyfraniad cyflogwr cyfatebol ychwanegol i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion. Gelwir hyn yn "Buddion Pensiynau Bangor".

**Enghraifft 1**

Mae'r enghraifft isod yn amlygu sefyllfa cyn ac ar ôl cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor ar gyfer gweithiwr sy'n ennill £30,000 y flwyddyn ac sy'n cyfrannu £2,400 (sef 8% o Gyflog Sylfaenol) y flwyddyn i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion. Dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor, mae Cyflog Sylfaenol y gweithiwr yn aros ar £30,000 er bod y swm a delir iddo drwy'r gyflogres er mwyn cyfrif am yr addasiad Cyfnewid Cyflog yn newid i £27,600.

| **Cyn ymuno â chynllun Buddion Pensiynau Bangor** | | **Ar ôl ymuno â chynllun Buddion Pensiynau Bangor** | |
|---|---|---|---|
| Cyflog | £30,000 | Cyflog Sylfaenol | £30,000 |
| Llai Cynllun Pensiwn y Prifysgolion | (£2,400) | Llai addasiad Buddion Pensiynau Bangor | (£2,400) |
| | | Cyflog wedi'i Addasu | £27,600 |
| Llai Treth a Delir | (£3,320) | Llai Treth a Delir | (£3,320) |
| Llai Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Gweithiwr | (£2,632.80) | Llai Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Gweithiwr | (£2,334.80) |
| **Cyflog Net** | **£21,647.20** | **Cyflog Net** | **£21,935.20** |

Mae cyflog net y gweithiwr wedi cynyddu gan £288 y flwyddyn o £21,647.20.12 i £21,935.20. Mae cyfanswm y cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion wedi aros yr un fath. Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar dreth incwm a chyfraddau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol 2016/17.

**Enghraifft 2**

Mae'r enghraifft isod yn amlygu sefyllfa cyn ac ar ôl cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor ar gyfer gweithiwr sy'n ennill £50,000 y flwyddyn ac sy'n cyfrannu £4,000 (sef 8% o Gyflog Sylfaenol) y flwyddyn i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion. Dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor mae Cyflog Sylfaenol y gweithiwr yn aros ar £50,000 er bod y swm a delir iddo drwy'r gyflogres er mwyn cyfrif am yr addasiad ar gyfer cynllun Buddion Pensiynau Bangor yn newid i £46,000.

| Cyn ymuno â chynllun Buddion Pensiynau | | Ar ôl ymuno â chynllun Buddion | |
|---|---|---|---|
| Cyflog Sylfaenol | £50,000.00 | Cyflog Sylfaenol | £50,000.00 |
| Llai Cynllun Pensiwn y Prifysgolion | (£4,000) | Llai addasiad Buddion Pensiynau Bangor | (£4,000) |
| | | Cyflog wedi'i Addasu | £46,000 |
| Llai Treth a Delir | (£7,600) | Llai Treth a Delir | (£7,600) |
| Llai Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Gweithiwr | (4,333.20) | Llai Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Gweithiwr | (£4253.20) |
| **Cyflog Net** | **(£34,066.80)** | **Cyflog Net** | **(£34,146.80)** |

Mae cyflog clir blynyddol y gweithiwr wedi cynyddu gan £80 o £34,066.80 i £34,146.80. Mae cyfanswm y cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Prifysgolion wedi parhau'r un fath. Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar dreth incwm a chyfraddau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol 2016/17.

### *6. Sut y bydd fy nghyfraniadau'n cael eu trin os wyf yn ennill mwy na'r trothwy cyflog blynyddol?*

Caiff trothwy cyflog ei weithredu a'i ailbrisio'n flynyddol gan Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (gan gychwyn ar £55,000 y flwyddyn o 1 Hydref 2016). O'r dyddiad hwn bydd gan bob aelod fynediad at adran cyfraniadau diffiniedig y cynllun (a elwir ar hyn o bryd yn adran Adeiladu Buddsoddiadau Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS Investment Builder). Bydd cyfraniadau ar gyflogau sy'n uwch na'r trothwy cyflog yn cael eu dyrannu i'ch cyfrif chi o fewn adran Cyfraniadau Diffiniedig / Adeiladu Buddsoddiadau yn unol â rheolau'r cynllun pensiwn.

### *7. Fedraf i wneud Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ac a fydd y rhain yn cael eu cynnwys o dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor?*

Gallwch ddewis cyfrannu mwy i'ch cronfa bensiwn yn rhan o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion a bydd y cyfraniadau ychwanegol yn mynd i mewn i'ch cyfrif Cyfraniadau Diffiniedig / Adeiladwr Buddsoddiadau (gweler cwestiwn 6). Bydd Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol yn cael eu seilio ar yr holl gyflog pensiynadwy h.y. uwch ben ac is law'r trothwy cyflog o £55,000.

Os ydych yn dewis gwneud y cyfraniad cyfatebol o 1% ar gael i'r Adran Cyfraniadau Diffiniedig / Adeiladwr Buddsoddiadau bydd yn cael ei gynnwys yn awtomatig o dan drefniadau cynllun Buddion Pensiynau Bangor (gan wneud eich gostyngiad Cyfnewid Cyflog yn 9%). Fodd bynnag, pe bai hynny'n golygu bod eich cyflog yn gostwng yn is nag un o'r trothwyon a amlinellir yng nghwestiwn 20, yna byddai'r Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol o 1% yn hytrach yn cael ei wneud y tu allan i gynllun Buddion Pensiynau Bangor fel didyniad o'ch cyflog.

Os ydych yn dewis peidio â gwneud rhagor o Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, ar ben y cyfraniad cyfatebol o 1%, bydd modd i chi ddewis cynnwys y cyfraniadau hyn o dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor (yn amodol ar y trothwyon sy'n cael eu hamlinellu yng nghwestiwn 20) ond bydd angen i chi ddewis cynnwys y rhain o dan Pensiynau a Mwy (Pensions Plus). Sylwch na fydd unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol pellach dros yr 1% yn denu cyfraniad cyfatebol ychwanegol o fwy nag 1%.

### *8. Beth sy'n digwydd os oes nifer o fuddion Cyfnewid Cyflog?*

Y sefyllfa yn Ebrill 2016 yw fod y Brifysgol yn cynnig nifer o fuddion gwirfoddol i staff o dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor. Mae hyn yn cynnwys talebau gofal plant, taliadau i feithrinfa Tir na nÓg, Cynllun Beicio i'r Gwaith, a'r gallu i brynu gwyliau ychwanegol. Bydd modd i chi gymryd rhan ym mhob un o'r buddion gwirfoddol hyn cyhyd â bod hynny ddim yn gostwng eich Cyflog wedi'i Addasu yn is na'r trothwyon sy'n cael eu hamlinellu yng Nghwestiwn 20).

### *9. Os cytunaf gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor a fydd hynny yn effeithio ar unrhyw daliadau eraill?*

Bydd unrhyw godiadau cyflog yn y dyfodol yn parhau i fod wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol ac felly ni fydd cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio arnynt. Bydd pob un o'r buddion a gewch sy'n gysylltiedig â chyflog eu cyfrifo ar sail eich Cyflog Sylfaenol hefyd.

### *10. Os yw fy nghyflog yn cael ei leihau sut y bydd modd i mi wirio bod taliadau goramser ac ati wedi cael eu gweithio allan yn gywir a'u talu i mi?*

Bydd eich slip cyflog yn dangos eich Cyflog Sylfaenol ac unrhyw lwfansau pensiynadwy eraill ynghyd â gostyngiad Buddion Pensiynau Bangor a fydd wedi'i labelu fel "Buddion Bangor - Pensiynau" a fydd yn ymddangos fel addasiad i'r cyflog gros, yn hytrach nag fel didyniad sy'n effeithio ar gyflog net.

### *11. A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar Dâl Rhiant (gan gynnwys tâl mamolaeth, tadolaeth, rhannu absenoldeb rhieni neu fabwysiadu)?*

Yn ystod cyfnod o Absenoldeb Rhiant, byddwch yn parhau i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor.

*Tâl Mamolaeth*

Mae gan weithwyr sy'n cychwyn ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth hawl i'r canlynol;

- Wyth wythnos gyntaf yr absenoldeb ar gyflog llawn (mae hyn yn cynnwys unrhyw hawl i Dâl Mamolaeth Statudol sy'n daladwy yn ystod y cyfnod o wyth wythnos)
- Deunaw wythnos nesaf yr absenoldeb ar hanner cyflog, ynghyd â Thâl Mamolaeth Statudol yn ôl yr hawl, wedi'i dalu i'r graddau na fydd yn fwy na'r cyflog arferol
- Y tair wythnos ar ddeg nesaf wedi'u talu ar gyfradd unffurf Tâl Mamolaeth Statudol, yn unol â hawl i hynny
- Hyd at dair wythnos ar ddeg arall yn ddi-dâl

Bydd eich Tâl Mamolaeth Statudol wedi'i seilio ar eich Cyflog wedi'i Addasu, ac felly bydd y Brifysgol yn 'ychwanegu' at eich tâl i'r lefel y byddech wedi'i dderbyn pe na byddech wedi cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor, i sicrhau nad ydych mewn gwaeth sefyllfa.
Bydd eich Tâl Mamolaeth wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol (cyn unrhyw ostyngiadau ar gyfer cynllun Buddion Pensiynau Bangor, talebau gofal plant neu feithrinfa). Byddwch yn parhau i gyfnewid cyflog wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol, cyhyd â bod eich Cyflog wedi'i Addasu ddim yn gostwng yn is na lefel y Tâl Mamolaeth Statudol. Pe deuid â'ch cyflog yn is na'r lefel angenrheidiol o dâl statudol byddai'r Addasiad Cyfnewid Cyflog ar gyfer Pensiwn yn stopio. Fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn parhau i wneud yr un lefel o gyfraniadau pensiwn (gan gynnwys y rhai yr ymrwymwyd iddynt o dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor) yn ystod cyfnodau o'r fath o absenoldeb gyda thâl.

Yn ystod cyfnodau lle byddwch yn derbyn Tâl Mamolaeth Statudol yn unig, ni fyddwch yn cyfnewid unrhyw gyflog; fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn parhau i wneud cyfraniadau pensiwn wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol cyn yr Absenoldeb Mamolaeth.

Yn ystod cyfnodau o'r fath o absenoldeb heb dâl, bydd unrhyw gyfraniadau pensiwn yn peidio hyd nes i chi ddychwelyd i'r gwaith.

*Absenoldeb Mabwysiadu*

Mae’r rheolau cymhwyso ar gyfer Absenoldeb Mabwysiadu a Thâl Mabwysiadu yn gymhleth. Os ydych chi’n ystyried, neu’n mynd drwy leoliad mabwysiadu, cysylltwch â’r adran Adnoddau Dynol ar 01248 383865 i gael rhagor o gyngor. Fodd bynnag, bwriad y Brifysgol yw na fyddwch dan anfantais o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor.

### *12. A fydd cymryd rhan yn effeithio ar Dâl Salwch Statudol?*

Os ydych yn cael Tâl Salwch Galwedigaethol gan y Brifysgol bydd y gostyngiad o dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor yn parhau i gael ei gymhwyso i'ch cyflog, cyhyd â bod gennych dâl anstatudol digonol.

Pe deuid â'ch cyflog yn is na'r lefel angenrheidiol o Dâl Salwch Statudol byddai'r addasiad o dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor yn stopio.

Yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch heb dâl, bydd unrhyw gyfraniadau pensiwn yn peidio hyd nes i chi ddychwelyd i'r gwaith.

**Fy Mhensiwn**

***13. A yw fy Nghyflog Pensiynadwy yn aros yr un fath?***

Eich Cyflog Pensiynadwy yw eich Cyflog Sylfaenol ynghyd ag unrhyw symiau cytundebol eraill a ganiateir gan y Brifysgol (ac eithrio goramser digontract). Dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor bydd eich Cyflog Pensiynadwy yn parhau i fod wedi'i seilio ar eich Cyflog Sylfaenol.

***14. Beth fydd yn digwydd i fy mhensiwn os byddaf yn rhoi'r gorau i weithio gyda'r Brifysgol ac yn gadael Cynllun Pensiwn y Prifysgolion?***

Os byddwch yn rhoi'r gorau i weithio gyda'r Brifysgol ac yn gadael Cynllun Pensiwn y Prifysgolion gyda mwy na dwy flynedd o wasanaeth ni fydd unrhyw newid. Bydd gennych ddewis rhwng pensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo eich buddion wedi'u gohirio.

Yn achos rhai sy'n gadael y cynllun gyda llai na dwy flynedd o wasanaeth, os nad ydych yn cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor cewch ddewis cael ad-daliad o'ch cyfraniadau, llai'r didyniadau priodol, yn hytrach na buddion wedi eu gohirio neu drosglwyddiad. **Nid yw ad-daliad yn ddewis i aelodau Cynllun Pensiwn y Prifysgolion sy'n cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor.**

Os byddwch yn gadael gyda llai na thri mis o wasanaeth, bydd gennych hawl i ad-daliad tybiannol o gyfraniadau sy'n gyfwerth â lefel y Cyfnewid Cyflog. Bydd hyn yn dileu unrhyw hawl i bensiwn wedi'i ohirio neu werth trosglwyddo.

***15. Beth am Farwolaeth mewn Swydd a Phensiwn Priod?***

Ni fydd y buddion hyn yn newid, a byddant yn parhau i fod wedi'u seilio ar eich Cyflog Sylfaenol.

***16. A fyddai'n dal i gael yr un pensiwn o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion pan fyddai'n ymddeol os ydw i'n cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor?***

Byddwch. Mae eich pensiwn pan fyddwch yn ymddeol wedi'i seilio ar eich gwasanaeth yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion a'ch Cyflog Pensiynadwy. Ni fydd eich Cyflog Pensiynadwy'n newid.

***17. A fydd newidiadau i Lwfans Pensiwn Blynyddol yn effeithio arnaf i?***

Mae a wnelo'r Lwfans Pensiwn Blynyddol â chyfanswm y cynilion pensiwn, o bob trefniant pensiwn sydd wedi eu cofrestru yn y Deyrnas Unedig, a wnaethoch yn ystod eich Cyfnod Mewnbynnu Pensiwn (a fydd o fis Ebrill 2016 yn cydredeg â'r flwyddyn dreth).

Os yw cyfanswm y cynilion pensiwn yn fwy na'r Lwfans Pensiwn Blynyddol, efallai y byddwch yn ddarostyngedig i dalu treth bersonol ar yr hyn sydd dros ben gan ddibynnu a oes gennych unrhyw gymorth heb ei ddefnyddio yn weddill i'r ddwyn ymlaen o flynyddoedd blaenorol.

O fis Ebrill 2016 gellir meinhau'r Lwfans Pensiwn Blynyddol os yw cyfanswm eich enillion (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond a chynnwys trefniadau aberthu cyflog newydd a wneir ar neu ar ôl mis Gorffennaf 2015) yn uwch na £110,000 yn y flwyddyn dreth. Efallai y bydd angen i chi ystyried effaith hyn yn ôl eich amgylchiadau penodol chi.

Cewch ragor o wybodaeth am y Lwfans Pensiwn Blynyddol ar:
http://www.gov.uk/tax-on-your-private-pension/annual-allowance

Dyma rai taflenni ffeithiau ynglŷn â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS):

Cyflog Terfynol:

https://www.uss.co.uk/-medical/document_libraries/uss/member/pre-factsheets/final-salary-to-tax-relief-and-tax-free-benefits-fs.pdf?la=en

Buddion Gyrfa a Ailbrisiwyd:
https://www.uss.co.uk/_/media/document_libraries/uss/member/pre-factsheets/limits-to-tax-relief-and-tax-free-benefits-crc.pdf?la=en

### *18. Beth os wyf wedi manteisio ar Optio Allan Estynedig (Enhanced Opt-Out) ac ar hyn o bryd yn talu cyfraniadau ar 2.5%*

Efallai eich bod wedi dewis rhoi'r gorau i gronni'r gwasanaeth (e.e. er mwyn ymdrin naill ai â materion trothwy Lwfans Oes neu Lwfans Blynyddol) ond eich bod wedi dewis cyfrannu 2.5% o'ch cyflog er mwyn cynnal eich buddion marwolaeth mewn gwasanaeth ac analluogrwydd.

O fis Hydref 2016 gallwch ddewis cyfrannu i'r adran Cyfraniadau Diffiniedig / Adeiladwr Buddsoddiadau (gweler cwestiwn 6 a 7) ond ni fyddwch yn cael y Cyfraniad Diffiniedig cyfatebol gan y Brifysgol. Ni fydd gan y Brifysgol hawl i gyfrannu at yr adran Cyfraniadau Diffiniedig / Adeiladwr Buddsoddiadau fel rhan o Optio Allan Estynedig.

### *19. A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar faint o ostyngiad yn y dreth yr ydw i'n ei gael?*

Na, ni fydd effaith ar faint o ostyngiad yn y dreth y byddwch yn ei gael.

### *20. A oes unrhyw amgylchiadau lle na fydd yn bosibl neu'n fanteisiol cymryd rhan?*

Fel y manylir yng nghwestiwn 3 ni fyddwch yn gallu cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor pe bai eich Cyflog wedi'i Addasu'n gostwng yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Yn ogystal, pe bai eich enillion yn gostwng yn is na Throthwy Isaf Enillion Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gallai hynny gael effaith negyddol ar eich gallu i hawlio budd-daliadau gan y wladwriaeth. Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd mae Terfyn Diogelu Cyflog wedi cael ei sefydlu o fewn y gyflogres. Ni fyddwn, felly, yn trefnu i chi ymuno'n awtomatig â chynllun Buddion Pensiynau Bangor os yw eich enillion yn agos i'r Terfyn Diogelu Cyflog. Fodd bynnag, os dymunwch gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor bydd arnoch angen llenwi ffurflen ymuno sydd ar gael gan yr adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 3865 neu drwy fynd i dudalennau'r adran Adnoddau Dynol ar y we.

Os bydd eich cyflog misol wedi'i addasu yn gostwng yn is na'r Terfyn Diogelu Cyflog misol yn ystod y flwyddyn byddwch yn cael eich eithrio'n awtomatig o gynllun Buddion Pensiynau Bangor am weddill y flwyddyn. Bydd modd i chi ailasesu eich ymrestriad gyda chynllun Buddion Pensiynau Bangor ar 1 Awst, neu os byddwch yn profi Digwyddiad Bywyd (gweler cwestiwn 21).

Os nad oes gennych oriau sefydlog ni wneir trefniadau i chi ymuno'n awtomatig â chynllun Buddion Pensiynau Bangor. Os ydych yn dymuno cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor yna dylech gysylltu â'r Adran Adnoddau Dynol ar 01248 38 3856 neu â Swyddog Pensiynau'r Brifysgol ar 01248 383261.

**Sylwer: Os ydych yn cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor ni fyddwch yn gymwys i gael ad-daliad o'ch cyfraniadau os ydych yn gadael y cynllun yn ystod eich dwy flynedd gyntaf o fod yn aelod.**

### *21. Beth os ydw i'n newid fy meddwl, neu fod fy amgylchiadau'n newid?*

Bydd modd i chi adolygu eich cyfranogiad yn rhan o gynllun Buddion Pensiynau Bangor bob blwyddyn ar y dyddiad adnewyddu blynyddol sef 1 Awst. Os profwch unrhyw newidiadau nad oedd modd eu rhagweld yn eich amgylchiadau personol yna efallai y bydd modd i chi ddewis ymuno / gadael cynllun Buddion Pensiynau Bangor (yn ôl disgresiwn y Brifysgol).

### *22. Rydw i dros oedran ymddeol y wladwriaeth ac felly dydw i ddim yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Oes modd i mi gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor?*

Os ydych chi dros oedran ymddeol y wladwriaeth ni fyddwch yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eich cyflog ac o ganlyniad ni fyddwch yn gweld unrhyw newid yn eich cyflog clir drwy gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ofynnol i'r Brifysgol dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr ar y cyflog a gewch a thrwy hynny bydd y Brifysgol yn gwneud arbedion, a fydd yn helpu i leihau ei chostau a bydd yr arbedion a wneir yn cael eu defnyddio gan eich adran chi. Yn seiliedig ar hyn, cewch eich cofrestru'n awtomatig yn rhan o gynllun Buddion Pensiynau Bangor.

### *23. Rydw i'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y gyfradd is ar gyfer gwragedd priod. Fyddai'n cael budd o arbedion oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol?*

Os ydych chi'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y gyfradd is ar gyfer gwragedd priod a gweddwon (mae hyn yn berthnasol i'r gweithwyr hynny a wnaeth y dewis hwn cyn 12 Mai 1977), rydych chi'n talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfradd is o 5.85% (yn hytrach na 12%) ar enillion rhwng £155 a £827 yr wythnos (rhwng £8,060 a £43,000 y flwyddyn) ac o 2% ar enillion o fwy na £827 yr wythnos (£43,000 y flwyddyn).

Byddwch yn parhau i wneud arbedion oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol wrth gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor ond bydd eich arbedion wedi eu seilio ar y cyfraddau hyn yn hytrach na'r symiau y cyfeirir atynt mewn mannau eraill yn y ddogfen hon.

### *24. Rydw i yn iau na 21 oed. Gaf i gymryd rhan?*

Cewch Er nad yw'n ofynnol i'r Brifysgol dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y £43,000 cyntaf o enillion blynyddol ar gyfer gweithwyr o dan 21 oed ac felly yn cael dim arbedion o hynny. Gan ei bod yn parhau'n ofynnol i chi dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y gweithiwr, byddwch chi yn parhau i wneud arbediad o ganlyniad i gymryd rhan.

***25. Prentis ydw i ac rwy'n iau na 25 oed. Gaf i gymryd rhan?***

Cewch. O fis Ebrill 2016 ni fydd yn ofynnol i gyflogwyr prentisiaid o dan 25 oed dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar y £43,000 cyntaf o enillion blynyddol prentisiaid. Mae hyn yn golygu, er na fydd y Brifysgol yn gwneud unrhyw arbedion o hynny o dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor ar gyfer gweithwyr o'r fath, mae'r prentisiaid eu hunain yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac felly fe fyddwch chi yn gwneud arbediad.

**Materion Eraill**

***26. A fydd cynllun Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy Nghredydau Treth?***

Na fydd. Ni fydd cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor ar ei ben ei hun yn effeithio ar unrhyw Gredydau Treth Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi gan eu bod yn seiliedig ar eich cyflog wedi ei addasu

***27. A fydd Buddion Pensiynau Bangor yn effeithio ar fy nhaliadau mewn perthynas â Chynhaliaeth Plant / i'r Asiantaeth Cynnal Plant?***

Gallwch wneud taliadau naill ai i'r Asiantaeth Cynnal Plant neu mewn perthynas â Chynhaliaeth Plant. Mae pa daliadau yr ydych yn eu gwneud yn dibynnu ar pryd y dechreuodd y trefniant.

Yr Asiantaeth Cynnal Plant - Caiff taliadau i'r Asiantaeth Cynnal Plant eu cyfrifo ar eich cyflog clir ar ôl didynnu treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol. O ganlyniad i'r arbedion y byddwch yn eu gwneud drwy Aberthu Cyflog ar gyfer Pensiwn bydd eich incwm net yn cynyddu ac felly efallai y bydd eich taliadau i'r Asiantaeth Cynnal Plant yn cynyddu mymryn o ganlyniad. Dylech roi gwybod i'r Asiantaeth Cynnal Plant am y newid yn eich incwm net ar unwaith. Cewch fanylion cyswllt ar gyfer yr Asiantaeth Cynnal Plant a rhagor o fanylion o wefan yr Asiantaeth Cynnal Plant ar www.csa.gov.uk <http://www.csa.gov.uk/>.

Cynhaliaeth Plant - Mae taliadau mewn perthynas â Chynhaliaeth Plant yn cael eu cyfrifo ar gyflog trethadwy cyn treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol ond ar ôl lefel gros cyfraniadau pensiwn personol (gan gynnwys unrhyw ostyngiadau yn y dreth). Felly, gan fod eich cyflog yn cael ei leihau gan lefel gros cyfraniadau pensiwn personol, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar sut y caiff taliadau eu cyfrifo gan y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant.

***28. A effeithir ar fy ad-daliadau benthyciad myfyriwr?***

Os ydych yn ad-dalu benthyciad myfyriwr a drefnwyd gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, efallai y bydd eich ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn cael eu gostwng fymryn o ganlyniad i gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor. Mae hyn oherwydd y caiff eich ad-daliadau eu cyfrifo ar eich enillion gros a fydd yn llai dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor drwy'r trefniant Cyfnewid Cyflog.

***29. Beth os ydw i'n gofyn am eirda er mwyn cael morgais neu fenthyciad?***

Byddwn yn dweud wrth fenthycwyr am eich Cyflog Sylfaenol, sef eich cyflog cyn unrhyw ostyngiad dan gynllun Buddion Pensiynau Bangor neu unrhyw gynlluniau Cyfnewid Cyflog eraill, ac am eich Cyflog wedi'i Addasu, sef eich cyflog ar ôl unrhyw ostyngiadau ar gyfer cynllun Buddion Pensiynau Bangor neu drefniadau Cyfnewid Cyflog eraill. Golyga hyn na ddylai cynllun Buddion Pensiynau Bangor gael effaith niweidiol ar eich gallu i gymhwyso am forgais neu fenthyciad arall.

### *30. Beth os nad ydw i eisiau cymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor?*

Gallwch ofyn am ffurflen dewis eithrio o gynllun Buddion Pensiynau Bangor gan yr adran Adnoddau Dynol ar 01248 383865. drwy ymweld â thudalennau gwe'r adran Adnoddau Dynol.

Mae dewis eithrio o gynllun Buddion Pensiynau Bangor yn golygu y byddwch yn parhau i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion ond ni fyddwch yn gallu manteisio ar yr arbedion oddi ar Gyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n arwain at y cynnydd yn eich cyflog clir a fyddai'n bosibl drwy gymryd rhan yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor.

### *31. Oes rhaid i mi wneud unrhyw beth er mwyn cymryd rhan, e.e. llofnodi unrhyw ffurflenni?*

Nac oes. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth oherwydd fe gewch eich cynnwys yn awtomatig yng nghynllun Buddion Pensiynau Bangor.

### *32. Am ba hyd fydd cynllun Buddion Pensiynau Bangor yn para?*

Bydd cynllun Buddion Pensiynau Bangor yn parhau i redeg am gyfnod amhenodol, heblaw na fydd mwyach yn fuddiol i'r gweithwyr na'r Brifysgol, ac os digwydd hynny mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gymryd cyfraniadau fel didyniadau o gyflog. Yn y cyfamser, byddwch wedi cael budd o gynnydd yn eich cyflog clir (mewn cymhariaeth â gwneud cyfraniadau fel didyniadau o gyflog).

### *33. I bwy fedraf i ofyn os oes gennyf ragor o gwestiynau?*

Os oes gennych ragor o gwestiynau, ewch i dudalennau gwe'r adran Adnoddau Dynol ar y Fewnrwyd, cysylltwch â'r adran Adnoddau Dynol yn uniongyrchol ar 01248 383865, neu â Swyddog Pensiynau'r Brifysgol ar 01248 383261.